# Y Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad a wnaethpwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub (FRS) neu weinyddwyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS) mewn perthynas â'ch buddion, mae proses gwyno dau gam ar waith a elwir yn **Weithdrefn Fewnol i Ddatrys Anghydfodau** (IDRP). Gallwch wneud cwyn o dan yr IDRP os ydych:

- **Yn Ddarpar Aelod** sy'n dymuno ymuno â FPS 2015 (Cymru) (FPS 2015), neu
- **Yn Ddiffoddwr Tân** sy'n cyfrannu at FPS 1992 / FPS 2007 (Cymru) neu FPS 2015 (Cymru), neu
- **Yn Ddiffoddwr Tân Gohiriedig** sydd wedi gadael y FPS, ond bod eich buddion yn parhau yn y FPS, neu
- **Yn Aelod Pensiwn,** sydd ar hyn o bryd yn derbyn buddion pensiwn o'r FPS (sy'n cynnwys gweddw, gŵr gweddw neu ddibynnydd, neu berson nad yw'n ddibynnol, sydd wedi goroesi, aelod o'r FPS sydd wedi marw).

Wrth wneud eich cwyn gallwch ddewis rhywun i gynrychioli eich achos – er enghraifft, ffrind, perthynas, cyfreithiwr neu gynrychiolydd undeb.

## Cam 1: Cwyn Ffurfiol

Dylech wneud cwyn ysgrifenedig i'r sawl rydych yn meddwl sydd ar fai, naill ai'r FRS neu Weinyddwr y cynllun, drwy lenwi'r ffurflen gais o fewn **6 mis** i'r broblem ddod i'r amlwg. Bydd ffeithiau eich achos yn cael eu harchwilio ynghyd â rheoliadau'r cynllun, ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol. Dylech dderbyn ymateb ysgrifenedig o fewn **2 fis** i dderbyn eich manylion. Bydd cadarnhad y penderfyniad yn cael ei gyflwyno, neu fel arall bydd rhesymau yn cael eu rhoi dros yr oedi cyn rhoi'r canlyniad.

Yn achos cwynion yn erbyn y FRS, gofynnir ichi lenwi'r ffurflen gais a'i dychwelyd at:

**Y Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JJ**

Yn achos cwynion yn erbyn Gweinyddwr y Cynllun, gofynnir ichi lenwi'r ffurflen gais a'i dychwelyd at:

**Y Rheolwr Pensiynau**
**Cronfa Bensiwn Dyfed**
**Neuadd y Sir**
**Caerfyrddin**
**SA31 1JP**

## <u>Cam 2</u>: Apêl Bellach

Os ydych yn anfodlon ar y penderfyniad Cam 1, mae gennych **6 mis** i apelio i ganolwr Cam 2 a benodir gan y Gronfa Bensiwn. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich apêl Cam 2 yn ysgrifenedig, a dylid cynnwys y penderfyniad Cam 1.

Hefyd, cewch fynd yn syth i Gam 2:

- Os ydych wedi mynd drwy Gam 1 ond heb gael ateb o fewn **3 mis** i wneud eich apêl; neu
- Os ydych wedi mynd drwy Gam 1 ond heb gael penderfyniad o fewn **mis** i'r dyddiad y dywedwyd wrthych y byddech yn ei dderbyn.

Dylai'r canolwr Cam 2 roi ateb i chi o fewn **2 fis** i dderbyn eich cwyn.

Llenwch y ffurflen gais amgaeedig ar gyfer yr holl apelau Cam 2 a'i dychwelyd at:

**Cadeirydd y Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Drwy law Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Ffordd Salesbury**
**Parc Busnes Llanelwy**
**Llanelwy**
**Sir Ddinbych**
**LL17 0JJ**

# Cymorth Pellach

### 1) Yr Ombwdsmon Pensiynau

Mae gennych yr hawl i gyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsman Pensiynau (TPO) yn rhad ac am ddim.

Mae'r TPO yn ymdrin â chwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud â gweinyddu a/neu reoli cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol.

Mae angen cysylltu â'r TPO ynghylch cwyn o fewn **3 blynedd** i'r adeg y digwyddodd y digwyddiad(au) yr ydych yn cwyno amdano/amdanynt - neu, os yn ddiweddarach, o fewn **3 blynedd** i'r adeg y cawsoch wybod amdano am y tro cyntaf (neu y dylech fod wedi gwybod amdano). Mae yna ddisgresiwn i ymestyn y terfynau amser hynny.

Manylion cyswllt yr Ombwdsman Pensiynau yw:

**10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU**

Rhif ffôn: **0800 917 4487**
E-bost: **enquiries@pensions-ombudsman.org.uk**
Gwefan: **www.pensions-ombudsman.org.uk**

## 2) Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau (TPAS)

Os oes gennych chi geisiadau cyffredinol am wybodaeth neu arweiniad ynghylch eich trefniadau pensiwn, cysylltwch â

**The Pensions Advisory Service (TPAS), 120 Holborn, London, EC1N 2TD**

Rhif ffôn: **0800 011 3797**
Gwefan: **www.pensionsadvisoryservice.org.uk/**

## 3) Y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR)

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) yn gorff gwarchod pensiynau, sy'n gofalu fod cynlluniau'n cael eu rhedeg yn iawn, ac yn gwarchod aelodau rhag twyll. Gall unrhyw un sy'n bryderus am gynllun gysylltu â'r TPR.

Mae manylion cyswllt y TPR fel a ganlyn:

Cyfeiriad: **TPR, Napier House, Trafalgar Place, Brighton, BN1 4DW**
Rhif ffôn: **0345 600 0707**
Gwefan: **www.thepensionsregulator.gov.uk/**

# Ffurflen Gais IDRP

## Cais Cam 1

(I'w lenwi gan yr Achwynydd neu Gynrychiolydd Personol)

| **Manylion yr Achwynydd** | (Defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU) | | |
|---|---|---|---|
| Enw Llawn: | | Dyddiad Geni: | |
| Rhif Cyflogres: | | Rhif Yswiriant Gwladol: | |
| Cyfeiriad: | | | |
| | | | |
| | | Côd Post: | |
| Yr Awdurdod Cyflogi: | | | |

| **Dewis Iaith** | (TICIWCH y blwch priodol i nodi eich dewis) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fel aelod o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, hoffwn dderbyn yr **HOLL** ohebiaeth yn y dyfodol**:** | | | | | |
| **YN GYMRAEG** | | **YN SAESNEG** | | **YN DDWYIEITHOG** | |

| **Cwblhewch isod os ydych yn cynrychioli'r achwynydd** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw Llawn: | | | |
| Perthynas â'r Achwynydd: | | | |
| Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth: | | | |
| | | | |
| | | Côd Post: | |

## Datganiad Cais

Rhowch ddatganiad ynglŷn â natur yr anghydfod drosodd, gyda manylion digonol i ddangos pam eich bod wedi eich tramgwyddo. Os oes angen, gallwch barhau ar dudalen ychwanegol a'i hatodi i'r ffurflen gais ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.

| Rhowch eich datganiad isod. |
| --- |
| |

**Parhewch â'ch datganiad isod.**

| Datganiad yr Achwynydd (Cam 1) |
|---|

1) Hoffwn wneud cais am wneud penderfyniad, o dan adran 50 o Ddeddf Pensiynau 1995, mewn perthynas â'r anghytundeb a nodir yn y cais hwn.

2) Rwy'n deall na ellir gwneud cais lle, mewn perthynas ag anghytundeb:

- Cyhoeddwyd hysbysiad o apêl o dan Reol H3 o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FPS) 1992, Rhan 8, Paragraff 5 o FPS 2007 (Cymru) neu Ran 6, rheol 3 o Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (apelio i fwrdd canolwyr meddygol yn erbyn penderfyniad ar fater o natur feddygol), neu Reoliad 173 FPS 2015 (Cymru), neu
- Mae achos mewn perthynas â'r anghydfod hwn wedi cychwyn mewn unrhyw lys neu dribiwnlys, neu
- Mae'r Ombwdsmon Pensiynau wedi cychwyn ymchwiliad i gŵyn, neu anghydfod a gyfeiriwyd ato.

3) Nodir natur yr anghytundeb ar y dudalen/tudalennau atodedig.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod yr Achwynydd: | | Dyddiad: | |
| PRINTIWCH YR ENW: | | | |
| Llofnod y Cynrychiolydd: | | Dyddiad: | |
| PRINTIWCH YR ENW: | | | |